Rhifyn 11 / Tachwedd 2019

# Y Cliciadur

Newyddion i Ysgolion Cynradd Cymru




Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
Cymraeg Byd Addysg
In Education
cynnal

**Awduron:** Haf Llewelyn, Mali Williams **Golygydd:** Karen MacIntyre Huws

# DIPPY Y DEINOSOR AR DAITH!

Mae **'Dippy'** y Diplodocws wedi cyrraedd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd fel rhan o'i daith o amgylch y Deyrnas Unedig (DU). Bu'r sgerbwd enwog yn byw yn yr Amgueddfa Hanes Natur yn Llundain ers 1905 ond bydd yn aros yng Nghymru hyd at y 26ain Ionawr, 2020.



Dyma Miriam, Haf a Myfi, tair o ddarllenwyr *Y Cliciadur* aeth i weld Dippy yn Nghaerdydd. Yn eu barn nhw roedd o yn "Ôsym! Roedd Dippy yn enfawr! Doedden ni ddim ond yn cyrraedd at ei ben-glin ac roedd o mor bell i gerdded o'i ben at ei gynffon!"

Cast (neu gopi) yw Dippy o sgerbwd y dinosor **Diplodocws** a gafodd ei ddarganfod yn Wyoming, Unol Daleithiau America ym 1898. Mae'n cynnwys 292 asgwrn ac yn 21.3 medr o hyd, 4.3 medr o led a 4.25 medr o daldra.

Wrth i Dippy deithio o amgylch y DU y gobaith yw y bydd yn annog pobl a phlant i gymryd diddordeb mewn hanes natur ac i'w ysbrydoli i edrych ar gasgliadau yn eu hardal leol. Bydd gan Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd raglen gyffrous o ddigwyddiadau i gyd-fynd â *Dippy ar Daith*. Bydd cyfle i ymwelwyr ryfeddu at Dippy, ymweld â'r orielau hanes natur a dod wyneb yn wyneb â deinosoriaid a chreaduriaid o bob math.

Mae mynediad i'r amgueddfa AM DDIM i bawb!




# ETHOLIAD CYN Y 'DOLIG

Mae Llywodraeth Prydain wedi cyhoeddi y bydd Etholiad Cyffredinol yn cael ei chynnal trwy wledydd Prydain ar **ddydd Iau, 12fed Rhagfyr, 2019**. Hon fydd yr etholiad cyntaf yn ystod y gaeaf ers bron i 100 mlynedd. Yn draddodiadol bydd Etholiadau Cyffredinol yn cael eu cynnal yn y gwanwyn neu'r haf. Mae'r tywydd yn well, ac felly bydd mwy o bobl yn pleidleisio.


## Beth ydi Etholiad Cyffredinol?

Mae gwledydd Prydain wedi eu rhannu yn 650 o rannau. Rhain yw'r etholaethau. Mae gan bob etholaeth berson arbennig h.y. Aelod Seneddol, sydd yn eu cynrychioli yn Nhŷ'r Cyffredin, y senedd yn Llundain. Bydd pawb sydd yn 18 oed, neu drosodd, yn cael pleidleisio i ddweud pwy maen nhw am gael i'w cynrychioli yn Llundain.

## Rhoi x ar y papur pleidleisio.

Yn yr orsaf bleidleisio mae papur gydag enwau pob un sydd yn ymgeisio i fod yn Aelod Seneddo arno. Bydd blwch wrth ymyl enw pob un. I bleidleisio, mae'n rhaid rhoi croes yn y bocs wrth ymyl enw'r un rydych chi eisiau ei ethol (ennill yr etholiad). Mae'r papur yn cael ei roi mewn blwch pleidleisio.

Mae gan bawb hawl i roi ei groes yn gyfrinachol. Does neb yn gwybod i bwy fydd pobl wedi pleidleisio. Mae hyn yn bwysig iawn, fel bod pawb yn rhydd i wneud y dewis.




## Beth wedyn?

Ar ddiwedd y diwrnod bydd y blychau pleidleisio i gyd yn cael eu cario i un adeilad, a bydd y papurau pleidleisio yn cael eu cyfrif. Yr ymgeisydd gyda'r mwyaf o bleidleisiau fydd yn ennill, ac yn dod yn Aelod Seneddol ac yn mynd i Dŷ'r Cyffredin yn Llundain i gynrychioli pobl yr etholaeth.



**STORI NEWYDD!**
Dim ond hen hosan?

TUDALEN 3



**GAEAFGYSGU**
Aros dan y dwfe!

TUDALEN 6



**TRADDODIADAU'R NADOLIG**
Pryd wnaeth rhai o draddodiadau'r Nadolig ddechrau?

TUDALEN 7

# DYDDIAU I'R DYDDIADUR

Tachwedd **19**

## Diwrnod Toiled y Byd


Pwrpas y diwrnod yma yw codi ymwybyddiaeth am lanweithdra o amgylch y byd ac anelu at gael cyfleusterau toiled i bawb erbyn 2030. Heddiw mae 4.2 biliwn o bobl yn byw heb doiled, sydd yn achosi tristwch a dioddef yn ogystal â pheryglu bywydau.

## CYFRI' LAWR AT Y NADOLIG:

Rhagfyr **1**

### Adfent

Dyma ddechrau cyfnod '**ADFENT**' sef cyfnod o 'aros' am y Nadolig mewn eglwysi. Gall hyn olygu agor drysau calendr Adfent, goleuo canhwyllau a chynnal gwasanaeth arbennig yn yr Eglwys. Yn ystod y cyfnod yma hefyd mae llawer o blant yn mynd i wasanaeth y **Christingle**. Yn y gwasanaeth yma mae plant yn derbyn oren wedi ei addurno a channwyll ar ei ben.




Rhagfyr **22-30**

### Hanukkah 2019


'Gŵyl Goleuni' yr Iddewon yw Hanukkah ac mae Iddewon o amgylch y byd yn ei ddathlu trwy oleuo canhwyllau ar y **menorah** (un bob nos), bwyta bwyd arbennig, canu caneuon arbennig a chynnal parti. Eleni mae Hanukkah yn cychwynRhagfyr wrth i'r haul fachlud ar **Ddydd Sul, 22ain Rhagfyr** ac yn parhau hyd machlud haul **Ddydd Llun, 30ain Rhagfyr**.



Cannwyllbren y 'Menorah'

## FFEITHIAU FFANTASTIG AM Y TWRCI

- Dim ond y twrci gwrywaidd (y bachgen) sy'n gwneud sŵn 'gobl-gobl'.
- Mae'r darn croen ar waelod gwddw'r twrci yn mynd yn goch pan mae'r aderyn yn poeni neu yn chwilio am gariad.
- Mae twrci'n gallu gweld yn wych ond nid yw'n gallu arogli'n dda iawn.
- Mae gan dwrci ddau stumog.
- Mae Americanwyr yn bwyta 45 miliwn o dwrcïod dros ŵyl Diolchgarwch bob blwyddyn (*Thanksgiving*)
- Bob blwyddyn bydd twrci yn cael ei gyflwyno i Arlywydd America ac mae'n cael 'pardwn' ganddo, sef peidio â chael ei ladd. Mae hyn yn golygu y bydd yn mynd i fyw ar fferm am weddill ei oes yn hytrach na chael ei fwyta i ginio Diolchgarwch!
- Y Brenin Harri VIII oedd y cyntaf i fwyta twrci i ginio Nadolig.
- Dim ond yn y 1950au daeth y twrci yn fwy poblogaidd na gŵydd ar gyfer cinio Nadolig.
- Mae o gwmpas 10 miliwn twrci yn cael ei fwyta dros y Nadolig yn y DU.



Rhagfyr **24**

### Noswyl Nadolig (*Christmas Eve*)

Dydd Mawrth

Rhagfyr **25**

### Diwrnod Nadolig

Dydd Mercher

Rhagfyr **26**

### Gŵyl San Steffan (*Boxing Day*)

Dydd Iau

Rhagfyr **25** + Rhagfyr **26** + Ionawr **1**

### Trochfa Fach yn y Môr?

Ar **Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan ac ar Ddydd Calan** mae'n draddodiad mewn llawer o leoliadau i fynd am drochfa yn y môr neu mewn llyn. Un o'r digwyddiadau mwyaf enwog o'r math hyn yn cael eu cynnal yw yr un blynyddol yn llyn y Sepentine yn Llundain ar ddiwrnod Nadolig, lle mae nofwyr weithiau yn gorfod torri'r rhew ar wyneb y llyn cyn mynd i fewn iddo! Ar hyd a lled Cymru mae nifer o ddigwyddiadau o'r math hyn gan gynnwys ym Mhorthcawl ar fore Nadolig, ar Gŵyl San Steffan yn Ninbych-y-Pysgod, Llandudno a Pen-bre ac yn Abersoch ar Dydd Calan. Codi arian at elusen yw'r nod yn rhan fwyaf o'r digwyddiadau hyn ac mae gwisgo gwisg ffansi yn rhan o'r hwyl!




Rhagfyr **31**

### Ras Guto Nyth Brân (Nos Calan)

Mae'r ras yma'n cael ei rhedeg ers 1958, dros gwrs o 5km yn nhref Aberpennar. Mae'n cael ei chynnal i gofio am y rhedwr enwog Guto Nyth Brân oedd yn byw yn yr ardal yn yr 1700au cynnar. Cyn i'r ras gychwyn ceir gwasanaeth yn eglwys Llanwynno ac mae torch yn cael ei adael ar fedd Guto Nyth Brân yn y fynwent. Bydd y ras yn gorffen yng nghanol y dref, gerllaw'r cerflun o Guto ei hun. Bob blwyddyn mae 'rhedwr dirgel' yn cystadlu ac mae'r rhain wedi cynnwys Linford Christie, Iwan Thomas a Lillian Board!




Cerflun Guto Nyth Brân yn Aberpennar.

Ionawr **5/6**

### Nos Ystwyll

5ed neu'r 6ed Ionawr.

Mae'r diwrnod yma 12 diwrnod ar ôl y Nadolig ac yn nodi diwedd yr ŵyl. Yn draddodiadol, dyma'r diwrnod i dynnu'r holl addurniadau Nadolig i lawr. Mae'r diwrnod yma hefyd yn cael ei gysylltu â hen draddodiadau Cymreig fel **Hela'r Dryw Bach a'r Fari Lwyd** a **Dathliadau Alban Arthan neu Fyrddydd y Gaeaf**.

# DIM OND HEN HOSAN?



Roedd popeth bron 'run fath ag arfer. Winciai'r goleuadau ar y goeden Nadolig gan dasgu patrymau lliwgar ar hyd y waliau, ac roedd y carw efo'r goleuadau drosto wedi ei roi allan yn yr ardd ffrynt. Roedd Twm wrth ei fodd efo'r Nadolig. Ond eleni, doedd pethau ddim yn union yr un fath ag arfer.

Edrychodd Twm i gyfeiriad y lle tân. Yno byddai'r fasged wedi bod. Dyna lle'r oedd y llynedd, a phob noswyl Nadolig byddai Twm yn gadael hen hosan ar y bachyn uwchben y fasged. Byddai Siôn Corn bob amser yn gadael rhywbeth ynddi - bisgeden, pêl neu degan meddal.

Ond doedd y fasged ddim yno nawr, a wyddai Twm ddim lle'r oedd yr hen hosan. Efallai fod Dad wedi ei thaflu. Roedd Twm wedi chwilio yng nghanol y bocsys Nadolig a ddaeth i lawr o'r atig. Tynnodd y tinsel o'r bocs a'i roi ar y goeden, a thynnodd y peli bach disglair yn ofalus a'u gosod yma ac acw ar y brigau. Tynnodd y tegan meddal Siôn Corn allan a'i roi yn y lle arferol wrth y drws. Edrychodd yn fanwl arno – roedd y cap yn dyllau bach i gyd, olion dannedd. Wedi gorffen addurno'r goeden aeth Twm i'w wely. Er ei fod wedi cyffroi, a'r Nadolig yn nesáu, roedd rhywbeth ar goll.

Y bore wedyn, agorodd Twm y llenni ac edrych draw at y goeden afalau, oddi tani roedd Twm a Dad wedi plannu eirlysiau, a sylwodd fod ambell flodyn bach gwyn yn gwthio ei ben trwy'r pridd yn barod.

Roedden nhw wedi plannu'r blodau i gofio am ffrind arbennig.

Brysiodd Twm i lawr y grisiau, roedd ei frecwast yn barod. Y tu ôl i'r bocs grawnfwyd, roedd rhywbeth llwyd ar y bwrdd – yr hosan!

'Wnei di ei rhoi hi ar y goeden Twm?' meddai Dad.

Gosododd Twm yr hen hosan yn ofalus ar un o'r brigau. Gwenodd yn drist wrth weld y pwythau coch yn sillafu enw 'GELERT'.

'Mae'n well i ni roi'r hen hosan i fyny fel arfer yn tydi?' meddai Dad, a gwasgodd Twm ato'n glòs.




## Cer Amdani

### Byddi di angen:

- Plât papur neu gerdyn gwyn
- Papur neu gerdyn coch
- Paent, creonau neu binnau ffelt ar gyfer lliwio
- Papur gwyn
- Siswrn
- Stwffylwr



# SION CORN ADFENT

**Dyma ffordd ddoniol o nodi cyfnod ADFENT a chyfri' lawr at y Nadolig gan ddefnyddio barf Siôn Corn. Mae 25 cylch yn ffurfio'r barf felly ar y 1af Ragfyr byddi di'n torri un cylch i ffwrdd o'i farf ac yn dal ati i dorri un cylch i ffwrdd bob dydd. Erbyn 25ain Rhagfyr bydd barf Siôn Corn wedi mynd i gyd!**

**1**



Gwneud wyneb Siôn Corn mewn unrhyw ffordd wyt ti'n ei ddewis. Mae'r *Cliciadur* wedi peintio y plât papur yn binc, gwneud llun y trwyn a'r gêg gyda pin ffelt du ac yna gludo llygaid, het a barf arno.

**2**



Torri stripedi o bapur gwyn. Mae maint tua 2cm o led a 20cm o hyd yn gweithio yn dda. Bydd angen 25 ohonynt, sef un ar gyfer bob diwrnod o adfent. Bydd rhain yn ffurfio cylchoedd fydd yn ffitio trwy ei gilydd fel cadwyn bapur.

**3**



Gan ddefnyddio stwffylwr, rhoi rhes o 6 cylch yn sownd ar hyd gwaelod wyneb Siôn Corn.

**4**



Dal i adeiladu barf Siôn Corn gan roi stribed o bapur drwy un neu ddau gylch a'i styffylu i wneud cylch arall. Dal ati nes byddi wedi defnyddio 25 o gylchoedd.

**TIP**

Bydd barf Siôn Corn yn edrych yn well os yw'n **gymesur** (yr un peth ar y ddwy ochr) ac yn dod i lawr yn gulach i ffurfio pigyn yn y gwaelod.

**5**



Gelli di wneud twll yn y top a rhoi darn o linyn i'w hongian os wyt ti eisiau. Dyna Siôn Corn yn barod i dy arwain drwy gyfnod yr Adfent a chyfri' lawr i'r diwrnod mawr!

Drama | Teledu | Celf | Llenyddiaeth | Cerddoriaeth | Barddoniaeth

# LLWYFAN

## Y LLYFRGELL GENEDLAETHOL YN PRYNU LLUN 'SALEM'



'Mae'r llun 'Salem' gan yr artist Sydney Curnow Vosper yn enwog iawn ond peintiodd Vosper 'ail Salem' hefyd, llun bron yr un fath â'r un cyntaf. Mae'r ail fersiwn hwn wedi ei brynu yn ddiweddar gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r llun cyntaf yn cael ei arddangos yn Oriel Lever, ger Lerpwl ond bydd yr ail lun yn cael ei weld yng Nghymru am y tro cyntaf! Mae hyn yn newyddion da iawn yn ôl Pedr ap Llwyd, Prif Weithredwr y Llyfrgell Genedlaethol:

*"...mae hwn yn un o drysorau'r genedl ac rwy'n edrych ymlaen at y cyfleoedd i'w rhannu â Chymru a thu hwnt. Bydd yn bleser medru ei harddangos a mynd â fo allan i'r gymuned, fel rhan o'n rhaglenni Campwaith Mewn Ysgolion."*

## Hanes y Llun

'Cafodd y 'Salem' cyntaf ei beintio yn 1908 ac mae'n dangos Siân Owen, Tyn-y-Fawnog yn cyrraedd gwasanaeth yng Nghapel Salem ger Cwm Nantcol yng Ngwynedd. Gwerthwyd y llun hwnnw i William Hesketh Lever, perchennog cwmni sebon 'Sunlight Soap'. Er mwyn ei helpu i werthu sebon rhoddodd Lever docynnau arbennig mewn pecynnau sebon ac roedd pobl yn  gallu casglu'r tocynnau a chael copi o 'Salem' i'w roi yn eu cartref. O ganlyniad i hyn roedd copi o'r llun i'w weld mewn cartrefi ar hyd a lled Cymru

## Y Diafol yn y Siôl.

Daeth y llun yn fwy enwog wedi i bobl sylwi fod posib gweld wyneb y diafol yn siôl Siân Owen. Yn ôl yr arlunydd Curnow Vosper, nid oedd wedi ei beintio yn fwriadol o gwbl.



## Yr Het Ddu Gymreig Draddodiadol:

Mae tair merch yn llun 'Salem', i gyd yn gwisgo het ddu Gymreig draddodiadol. Peintiodd Curnow Vosper y llun ar ddiwedd Oes Fictoria pan nad oedd merched yn gwisgo hetiau fel hyn mewn gwirionedd. Pam wyt ti'n meddwl fod yr artist wedi dewis gwneud hyn tybed? Mae llawer o artistiad Cymraeg modern wedi dewis darlunio yr het ddu draddodiadol hefyd. Dyma waith Ruth Jên a Lowri Davies.



Ruth Jên

**Beth ydy dy farn di: stereoteip hen-ffasiwn a gwirion neu draddodiad pwysig?**



Lowri Davies

# GWAITH A GYRFAOEDD

## Sara Davies

**Enw:** Sara Davies

**Swydd:** Rheolwr Tîm Rygbi'r Scarlets

**Lleoliad gwaith:**

Parc Y Scarlets, Llanelli



### Diwrnod arferol:

Rydyn ni'n dechrau'r diwrnod gyda chyfarfod staff, yna fi'n dala lan gyda'r chwaraewyr ac yn gwneud yn siŵr fod pawb yn iawn. Yna fi'n mynd trwy fy e-byst, bydd yna drefniadau teithio ac amserlenni i'w trefnu. Fi'n gwylio'r hyfforddi, ac yn helpu gyda'r dadansoddi sgiliau. Mae'n ddiwrnod hir, 7:00 y bore tan 6:00 yr hwyr.

### Pethau da am eich gwaith:

- Gweithio gydag athletwyr sy'n cymryd eu gwaith o ddifrif
- Y cyffro ar ddiwrnod gêm
- Pwysau'r gwaith
- Ennill gêm

### Dim mor dda:

- Gweld chwaraewyr yn cael niwed
- Colli gêm

### Pam gwneud y gwaith hwn?

Fi wedi chwarae rygbi ers oeddwn i'n 8 oed, a fi'n caru'r gêm. Wrth dyfu fyny, roeddwn i'n mynd i wylio tîm Hendy-gwyn. Yna wedi mynd i'r brifysgol wnes i chwarae i dîm Met Caerdydd a chymryd rhan yn y trefnu. Roeddwn wrth fy modd.  Pan ddaeth y swydd hon i fyny, fe dries i amdani, a'i chael. Fi wrth fy modd!

### Tips:

- Gweithio'n galed
- Bod yn gyfeillgar
- Mynd gam ymhellach
- Gwneud llawer o waith gwirfoddol



**Diolch Sara a phob lwc i'r Scarlets!**




## Be' ydi dy farn di?

Mae'n dymor y Nadolig ac mae nifer o bobl yn prynu craceri Nadolig. Ond mae nifer o graceri yn defnyddio plastigion. Mae'r craceri yn aml yn cael eu pecynnu mewn plastig, neu mae anrhegion bach plastig ynddynt. A ddylen ni barhau i brynu craceri felly?


Dwi'n credu y dylen ni beidio prynu craceri Nadolig. Mae yna lawer o wastraff yn y pecynnu ac mae'r anrhegion ynddynt fel arfer wedi eu gwneud o blastig. Rydyn ni i gyd yn gwybod am y niwed i fywyd gwyllt sydd yn digwydd oherwydd plastig. Peidiwch â'u prynu! Ar y llaw arall - gallwch wneud eich craceri eich hun heb blastig ynddyn nhw.

Mae craceri yn llawer o hwyl. Fyddai Nadolig ddim yn Nadolig heb graceri. Dwi o'r farn ein bod yn gwneud gormod o ffwdan ac yn poeni gormod am blastigion. Beth am wneud yn siŵr ein bod yn ail-gylchu'r pecyn am y craceri, ac yn cadw'r anrhegion bach yn ddiogel? Dwi ddim yn meddwl fod craceri cartref yn edrych cystal â rhai siop.

# PWYSO A MESUR

## PÔS ANRHEGION NADOLIG



| |  Sannau |  Gêm fwrdd |  Esgidiau olwyn |  Llyfr |
|---|---|---|---|---|
| **Cai** | | | | |
| **Mair** | | | | |
| **Cadi** | | | | |
| **Simon** | | | | |

**Mae'r plant wedi cael anrheg Nadolig. Beth gafodd pawb?**

1. **Does dim olwynion ar anrheg Cai.**
2. **Mae Mair a Cai yn gallu gwisgo eu anrheg nhw.**
3. **Ni chafodd Simon gêm fwrdd.**



# ANTI DOT YN DWEUD

**Mae'r clociau wedi troi yn ôl ac erbyn hyn mae'r dydd yn fyr, ac mae'n dywyll gyda'r nos. Dyma rai o dips Anti Dot i dy gadw'n ddiogel.**



Rhaid dweud wrth rhiant neu oelolyn cyfrifol bob amser cyn mynd allan gyda'r nos.

Rhaid i ti wisgo dillad llachar neu liw golau gyda'r nos, yn arbennig wrth ymyl y ffordd. Fel hyn bydd ceir yn gallu dy weld.

Cofia fynd â thortsh efo ti, rhag ofn na fydd golau stryd.

Cofia aros ar y pafin i fod yn ddiogel.

**Ateb y Pos Anrhegion Nadolig** : Cai : Sannau   Mair : Esgidiau olwyn   Cadi : Gêm fwrdd   Simon: Llyfr

# DAN Y CHWYDD WYDR

## GAEAFGYSGU - AROS DAN Y DWFE!

**Mae'n oer a gwlyb y tu allan ac mae'n braf cael aros yn y tŷ. Wyt ti weithiau awydd aros yn dy wely a swatio o dan y dwfe? Wel nid ti ydi'r unig un!**



### Gaeafgysgu

Bydd rhai anifeiliaid yn mynd i gysgu dros fisoedd oer y gaeaf. Maen nhw'n gwneud hyn gan fod bwyd fel pryfaid a phlanhigion gwyrdd yn brin yn y gaeaf.
Byddan nhw'n mynd i gwsg trwm ac felly yn arbed eu hegni fel nad oes yn rhaid iddyn nhw gael gymaint o fwyd.

### Paratoi cyn cysgu.

Bydd rhai o'r anifeiliaid sy'n gaeafgysgu yn paratoi trwy fwyta llawer cyn mynd i gysgu. Bydd rhai eraill yn casglu bwyd i storfa, yn ymyl lle bydden nhw'n cysgu. Yna byddan nhw'n deffro am ychydig i fwyta, cyn mynd yn ôl i gysgu eto.

### Beth sy'n digwydd i'r anifail pan mae'n gaeafgysgu?

- mae tymheredd y corff yn disgyn
- mae'r anadlu yn arafu
- mae curiad y galon yn arafu
- mae metaboledd yr anifail yn arafu (mae'n defnyddio llai o egni)

### Dyma rai anifeiliaid sy'n gaeafgysgu yng Nghymru:



#### Pathew

Mae'r pathew yn gaeafgysgu mewn twll yn y ddaear. Cyn cysgu bydd wedi bwyta cymaint bydd bron iawn yn ddwbl ei faint arferol!



#### Ystlum

Bydd pob rhywogaeth o ystlumod Cymru yn cysgu trwy'r gaeaf gan nad oes pryfaid ar gael iddyn nhw eu bwyta. Fe fyddan nhw'n cysgu mewn tyllau coed, mewn ogofâu ac weithiau o dan y to yn ein tai! Mae eu curiad calon yn arafu i tua 20 curiad y munud.



#### Draenog

Gan mai chwilod, mwydod a phryfaid eraill yw prif fwyd y draenog, mae'n rhaid iddo aeafgysgu. Bydd yn treulio'r hydref yn bwyta a bwyta, fel bod ganddo ddigon o **floneg** i'w gadw trwy'r gaeaf. Bydd yn gwneud nyth iddo ei hun o dan y gwrych, neu dwmpath o ddail.

**Cofia - os wyt ti'n gweld nyth draenog yn y gaeaf - paid a'i ddeffro!**

**bloneg** - *fat*

# TI'N SEREN!

## COLIN CORN

**Mae *Y Cliciadur* wedi cael cyfweliad gyda un o gorachod Siôn Corn. Seren go iawn! Dyma hanes Colin Corn.**

**Enw:** Colin Corn

**Oed:** Hmm? Dim yn siŵr iawn!

**Ysgol:** Wedi gadael yr ysgol ers amser maith.

**Hoff bynciau yn yr ysgol?**
Daearyddiaeth.

**Beth wyt ti'n ei wneud o ddydd i ddydd?**
Fy ngwaith i yw helpu Siôn Corn i ddarllen rhestrau plant y byd. Wedyn mae'n rhaid dod o hyd i'r anrhegion. Ar ôl dod o hyd i'r anrhegion, rhaid gwneud yn siŵr eu bod yn mynd i'r plant cywir. Mae hynny'n anodd weithiau, oherwydd mae cymaint o anrhegion yn stordy Siôn Corn. Yna mae'n rhaid llwytho popeth ar y sled, a gwneud yn siŵr fod y ceirw yn barod - yn iach a hapus.


**Diddordebau:**
Darllen map, oherwydd mae'r peiriant ffeindio ffordd yn rhewi weithiau ac yn stopio gweithio. Mae hynny yn broblem! Felly bydda i'n darllen y map a chynllunio'r ffordd fel bod Siôn Corn a'r ceirw yn dod o hyd i'r llefydd cywir.

**Beth fyddi di'n ei wneud i ymlacio?**
Gan fy mod yn byw mewn lle oer iawn, mae mynd am wyliau i lan y môr yn braf. Rydw i wedi clywed fod traethau braf yng Nghymru. Efallai y dof i am wyliau i Gymru flwyddyn yma. Dwi wrth fy modd yn gwneud cestyll tywod a chynhesu fy nhraed yn y môr.

**Lle fyddi di mewn 10 mlynedd?**
Rhywle rhwng Pegwn y Gogledd a Phegwn y De!



# 3 LLYFR CYMRAEG GWYCH AR GYFER HOSAN NADOLIG:





Y llyfr perffaith ar gyfer dathlu Cwpan Rygbi'r Byd! Cyflwyniad cyffrous i'r gêm er mwyn helpu plant i ddeall y rheolau, dysgu sgiliau rygbi a dysgu am recordiau byd yn y maes. Edrychir ar hanes y gêm, gan fanylu ar fathau gwahanol o rygbi, megis Rygbi'r Undeb, Rygbi'r Gynghrair, Rygbi Saith-bob-ochr a Rygbi Tag.

**Awdur: Sarah Larter Pris: £9.99**




Llyfr am 12 o ferched ysbrydoledig o Gymru e.e. Tori James, Laura Ashley, Eileen Beasley, Amy Dillwyn, Haley Gomez. Mae'r merched yn arbenigwyr yn eu meysydd penodol ac yn dod o bob rhan o Gymru. Mae'r llyfr yn llawn hwyl, ffeithiau, posau, gweithgareddau, cartwnau a lluniau lliwgar Telor Gwyn.

**Awdur: Medi Jones Jackson Pris: £5.99**




Llyfr ffeithiol am 50 o adar sydd i'w gweld yng Nghymru, wedi ei ddylunio'n ddeniadol, gyda thudalen ddwbl i bob aderyn, yn cynnwys ffeithiau, ffotograffau a lluniau wedi eu comisiynu'n arbennig ar gyfer y gyfrol. Bydd ffeithiau megis maint, cynefin a bwyd yr adar, disgrifiad, mis-o-metr, Ffeithiau Ffab a geirfa.

**Awdur: Onwy Gomer Pris: £6.99**



# TRADDODIADAU'R NADOLIG



**Mae *Y Cliciadur* yn edrych ymlaen yn arw at Nadolig. Bydd y goeden i fyny erbyn dechrau Rhagfyr, bydd y llythyr at Siôn Corn wedi ei ysgrifennu, a phawb yn brysur yn paratoi.**
**Daw rhai o'n traddodiadau o gyfnod cyn-Cristnogaeth ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deillio o Oes Fictoria.**

## DECHRAU'R NADOLIG MODERN

Cyn Oes Fictoria, nid oedd y Nadolig yn cael ei ddathlu fel heddiw. Byddai anrhegion bach yn cael eu rhoi i groesawu'r flwyddyn newydd, a byddai plant yn mynd o amgylch i hel calennig. Ond yn ystod y 1800au newidiodd bywydau llawer o bobl. Byddai nifer o ferched a dynion ifanc Cymru yn byw a gweithio mewn dinasoedd a threfi mawr, a bydden nhw'n gallu teithio'n ôl adref ar y trên ar gyfer y Nadolig. Roedd hynny wrth gwrs yn achos dathlu mawr.
Daeth peiriannau yn fwy cyffredin, ac roedd nwyddau fel addurniadau a chardiau yn cael eu gwneud ar gyfer eu gwerthu. Dyna ddechrau'r farchnad nwyddau Nadolig.

### Oeddet ti'n gwybod?

Y Pab Julius I wnaeth nodi 25ain Rhagfyr fel diwrnod Nadolig, a hynny yn ôl yn y 4edd ganrif.

Rhagfyr
25



## Y GOEDEN NADOLIG

Roedd Albert, gŵr y frenhines Victoria yn hanu o'r Almaen. Yn yr Almaen roedd yn draddodiad dod â choeden fythwyrdd i mewn i'r tŷ ar noswyl Nadolig. Yn 1848 argraffwyd darlun o'r Teulu Brenhinol yn sefyll o amgylch coeden Nadolig, a dyna ddechrau'r traddodiad o addurno coeden. Byddai'r goeden yn cael ei haddurno gyda rhubanau, cnau, ffrwythau a chanhwyllau.

## DATHLU GANOL Y GAEAF

Ers cyn cyfnod cyn Crist, roedd pobl yn dathlu canol y gaeaf trwy wledda. Byddai planhigion bythwyrdd yn cael eu defnyddio i addurno'r stafelloedd.
Wedi i'r dydd byrraf (21ain Rhagfyr) basio roedd pawb yn falch o weld y dyddiau'n dechrau ymestyn eto. Ynghanol gaeaf byddai'r gwyrddni yn atgoffa pobl fod y gwanwyn yn siŵr o ddod.
Rydym yn dal i ddefnyddio planhigion gwyrdd i addurno ein tai.


Celyn


Pinwydd a moch coed


Uchelwydd


Iorwg neu eiddew

## SANT NICLAS

Dyn o Dwrci oedd Sant Niclas. Yn ôl y sôn roedd yn ddyn caredig iawn, yn arbennig wrth blant. Mae un chwedl yn sôn iddo daflu sachaid fach o aur i lawr corn simdde un teulu tlawd. Tybed os mai hwn oedd y Siôn Corn cyntaf?

## CARDIAU NADOLIG

- 1840 - y Penny Post, y stamp post cyntaf yn cael ei ddefnyddio
- 1843 - Sir Henry Cole, gŵr busnes o Lundain yn gyrru'r cerdyn Nadolig cyntaf at ei ffrindiau
- 1850au - blychau postio yn cael eu rhoi ar y strydoedd
- 1880au - 5 miliwn o gardiau Nadolig yn cael eu postio






**ERTHYGLAU A DYDDIADAU MEWN RHIFYNAU BLAENOROL O'R *CLICIADUR***

**1af Tachwedd:** Calan Gaeaf
**500:** Dewi Sant (Rhifyn 1)
**1136:** Cestyll Cymru (Rhifyn 3)
**1859:** Trychineb *Y Royal Charter* (Rhifyn 8)
**1867-1934:** Marie Curie (Rhifyn 7)
**1912:** Cyrraedd Pegwn y De (Rhifyn 6)
**1914:** Cadoediad Dydd Nadolig yn y ffosydd (Rhifyn 5)
**1942-1945:** Anne Frank (Rhifyn 9)
**1948:** Sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd (Rhifyn 4)
**1960au:** Chwyldro'r Chwedegau (Rhifyn 2)

# BLE GAWN NI FYND HEDDIW...?

## MARCHNADOEDD NADOLIG



Traddodiad sy'n cael ei gysylltu gyda chyfnod yr **adfent** (y 24 diwrnod cyn y Nadolig) yw'r Farchnad Nadolig, neu'r ***Christkindlmarkt** fel mae'n cael ei alw yn yr Almaen. Dechreuodd y traddodiad yma yn yr Almaen yn y Canoloesoedd ond erbyn hyn mae'r marchnadoedd yn boblogaidd dros Ewrop gyfan, gan gynnwys nifer yng Nghymru. Mewn marchnad Nadolig traddodiadol ceir stondinau pren yn gwerthu bob math o bethau, fel bisgedi sinsir **Lebkuchen**, gwin poeth o'r enw **Glüwein** a theganau pren y **Nussknacker**. Mae'r marchnadoedd Nadolig mwyaf poblogaidd yn ninasoedd mawr yr Almaen, fel Frankfurt, Dortmund a Cologne ac maent yn denu miliynau o ymwelwyr bob blwyddyn.

***Christkindlmarkt**
Yn golygu 'Marchnad y Baban Iesu'

**Dyma rai o'r marchnadoedd Nadolig sydd yng Nghymru eleni, beth am iti fynd am dro i un yn dy ymyl di?**

1. **Marchnad Oes Fictoria Wrecsam**
   Yn agor ar 5ed Rhagfyr
2. **Marchnad Nadolig Caerdydd**
   14eg Tachwedd hyd 24ain Rhagfyr
3. **Ffair Nadolig Llandudno**
   14eg hyd 17eg Tachwedd
4. **Marchnad Nadolig Abertawe**
   8fed Rhagfyr






Tegan pren y Nussknacker

# BANCIAU BWYD



## MEDDWL AM ERAILL DROS GYFNOD Y NADOLIG

**Yn ôl elusen Achub y Plant mae tua 200,000 o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi, mae hyn yn 1 plentyn mewn 3.**



Mae'r **Trussell Trust** yn elusen sydd yn cefnogi dros 1,200 o fanciau bwyd drwy wledydd Prydain i gyd. Mae banc bwyd yn darparu bwyd i bobl a theuluoedd sydd mewn argyfwng ac sydd angen help i gael digon o fwyd. Mae'n bosib rhoi cyfraniad i fanc bwyd mewn archfarchnadoedd lleol, felly os wyt ti yn siopa dros gyfnod y Nadolig beth am brynu un peth ychwanegol er mwyn ei roi i'r banc bwyd?

# PÊL-DROED EWRO 2020

**Gyda buddugoliaethau yn erbyn Azerbaijan a Hwngari yn y ddwy gêm olaf, mae Cymru wedi sicrhau eu lle yn y rowndiau terfynol pencampwriaeth Ewro 2020 y flwyddyn nesaf. Hwn ydi'r eildro mewn pedair blynedd i Gymru ennill lle mewn rowndiau terfynol pencampwriaeth - a'r cyntaf i Ryan Giggs fel rheolwr yn ei ymgyrch lawn cyntaf. Da iawn Cymru! Mi fydd y bencampwriaeth yn cychwyn ar y 12fed Mehefin, 2020.**




| GRŴP E | | Ch | E | Cy | Co | +/- | Pt |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Croatia | 8 | 5 | 2 | 1 | 10 | 17 |
| 2 | Cymru | 8 | 4 | 2 | 2 | 4 | 14 |
| 3 | Slofacia | 8 | 4 | 1 | 3 | 2 | 13 |
| 4 | Hwngari | 8 | 4 | 0 | 4 | -3 | 12 |
| 5 | Azerbaijan | 8 | 0 | 1 | 7 | -13 | 1 |

Ch = Gemau wedi'i chwarae
E = Ennill
Cy = Cyfartal
Co = Colli
+/- = Gwahanieth goliau
Pt = Pwyntiau

Bydd dau rifyn o'r *Cliciadur* yn ymddangos ar Hwb bob tymor. Bydd y rhifyn nesaf ar gael ar ddydd Llun 20fed Ionawr.
Cofia gysylltu drwy e-bostio cliciadur@cynnal.co.uk - byddwn wrth ein boddau yn clywed dy farn a dy syniadau.